



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Hydref 2019

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Tlodi Tanwydd



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2006.

Roedd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Mark Jeffs, Emma Giles, Rachel Harries and Seth Newman o dan gyfarwyddyd Matthew Mortlock.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2019

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Cyflwyniad	5	
Canfyddiadau allweddol	6	
Argymhellion	8	
1	Roedd nod Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dileu tlodi tanwydd yn uchelgeisiol o ystyried y cymhlethdodau ac ansicrwydd cynhenid	11
	Fe bennodd Llywodraeth Cymru dargedau sy'n ymwneud â thlodi tanwydd: ymhlith yr holl grwpiau agored i niwed erbyn 2010; mewn tai cymdeithasol erbyn 2012; ac yn y boblogaeth gyffredinol erbyn 2018	12
	Mae trechu tlodi tanwydd yn gymhleth, gyda'r achosion a'r ymatebion yn rhychwantu ffiniau sefydliadol	15
2	Ymddengys fod buddsoddiadau ac ymdrechion Llywodraeth Cymru wedi helpu i ostwng lefelau tlodi tanwydd amcangyfrifedig ond nid yw wedi cyrraedd unrhyw un o'i thargedau	20
	Mae Llywodraeth Cymru wedi gwario £252 miliwn ar ei rhaglen Cartrefi Cynnes i leihau tlodi tanwydd, yn bennaf trwy wella effeithlonrwydd ynni cartrefi, ochr yn ochr â buddsoddiadau ehangach i wella tai cymdeithasol	21
	Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio gweithio gyda chyrrff eraill a chydgysylltu ei hadrannau ei hun i ddatblygu dull cyfunol o ymdrin ag achosion ehangach tlodi tanwydd	24
	Er bod nifer amcangyfrifedig yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd wedi gostwng o 332,000 yn 2008 i 155,000 yn 2018, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd unrhyw un o'r targedau ac mae effaith ei hymdrechion ar leihau tlodi tanwydd yn ansicr	27

Atodiadau	33
Atodiad 1 – Dulliau archwilio	34
Atodiad 2 – Gweithgarwch y cynllun Nyth 2011-2019	36
Atodiad 3 – Gweithgarwch y cynllun Arbed rhwng 2010-2019	39
Atodiad 4 – Rhestr o'r termau a ddefnyddir yn Ffigur 2	41

Cyflwyniad

- 1 Mae tlodi tanwydd yn fater arwyddocaol. Ceir tystiolaeth bod byw mewn cartref oer, llaith yn cael effeithiau negyddol ar les meddyliol a chorfforol pobl yn ogystal â'u rhagolygon bywyd mwy hirdymor. Yn yr achosion mwyaf eithafol, mae tlodi tanwydd yn gallu arwain at farwolaeth cyn pryd, yn enwedig ymhlith pobl hŷn agored i niwed yn ystod y gaeaf. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi'n helaeth mewn ymdrechion i drechu tlodi tanwydd ac yn gwario arian yn ymdrin â rhai o'r amgylchiadau.
- 2 Fe benderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad gwerth am arian o ymdrechion Llywodraeth Cymru i drechu tlodi tanwydd. Ym mis Chwefror 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau i gyhoeddi cynllun newydd i drechu tlodi tanwydd. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lansio ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Hydref 2019 a chyhoeddi Cynllun Tlodi Tanwydd newydd ym mis Chwefror 2020.
- 3 Felly fel benderfynom ni gyflawni trosolwg lefel uchel gychwynnol o uchelgeisiau presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer tlodi tanwydd a'i chynnydd hyd yma cyn yr ymgynghoriad hwnnw. Nod ein gwaith yw darparu peth dealltwriaeth am ymdrechion ers cyhoeddi Strategaeth Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru yn 2010¹. Rydym hefyd yn nodi rhai materion allweddol i Lywodraeth Cymru eu hystyried wrth iddi gwblhau ei chynllun newydd a'i roi ar waith.
- 4 Ar y cam hwn, nid ydym wedi ystyried yr holl ffactorau cyd-destunol a hanesyddol ehangach sy'n effeithio ar dlodi tanwydd. Deallwn fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu disgrifio'r cyd-destun hwn yn ei hymgynghoriad. Hefyd, o ystyried cyfyngiadau o ran amser, nid ydym wedi bwrw golwg fanwl ar werth am arian y ddau brif gynllun effeithlonrwydd ynni cartref – 'Nyth' ac 'Arbed'. Fodd bynnag, rydym yn ystyried gwaith pellach i fwrw golwg ar y cynlluniau hyn cyn bo hir. Mae Aelod Cynulliad wedi ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol i nodi pryderon penodol ynghylch cynllun Arbed ond nid ydym wedi bwrw golwg ar y materion a godwyd fel rhan o'r adroddiad hwn. Mae **Atodiad 1** yn nodi ein dulliau archwilio.

1 Llywodraeth Cymru, **Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010**, Gorffennaf 2010

Canfyddiadau allweddol

- 5 Fe bennodd Llywodraeth Cymru dargedau sy'n ymwneud â thlodi tanwydd: ymhlith yr holl grwpiau agored i niwed erbyn 2010; mewn tai cymdeithasol erbyn 2012; ac yn y boblogaeth gyffredinol erbyn 2018. Roedd y targedau hyn yn uchelgeisiol o ystyried bod trechu tlodi tanwydd yn gymhleth, gyda'r achosion a'r ymatebion yn rhychwantu ffiniau sefydliadol.
- 6 Gan gynnwys rhai o gronfeydd yr UE, mae Llywodraeth Cymru wedi gwario £252 miliwn ar ei rhaglen Cartrefi Cynnes i leihau tlodi tanwydd, yn bennaf trwy wella effeithlonrwydd ynni cartrefi ond hefyd trwy roi cyngor i bobl ar faterion megis cynyddu incwm i'r eithaf ac arbed ynni. Mae **Atodiadau 2 a 3** yn nodi rhagor o fanylion am wariant ar y cynlluniau Nyth ac Arbed a'u hallbynnau. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r cynllun Arbed sy'n seiliedig ar ardaloedd wedi ei chael yn anodd gwario ei gyllideb ddyranedig.
- 7 Fel rhan o'i hymdrechion i ddatblygu dull mwy cyfannol o drechu tlodi, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio gweithio gyda chyrff eraill a chydgysylltu ei hadrannau ei hun i fynd i'r afael ag achosion ehangach tlodi tanwydd, gan gynnwys buddsoddi'n ehangach mewn rhaglenni sy'n gallu cefnogi ei huchelgeisiau tlodi tanwydd. Mae'r rhaglenni ehangach hyn yn cynnwys buddsoddi mewn gwaith i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru ar draws tai cymdeithasol. Fodd bynnag, ceir rhai tensiynau hanfodol rhwng gwahanol nodau polisi. Yn arbennig, ceir tensiynau rhwng nodau dileu allyriadau carbon o dai domestig a blaenoriaethu ymdrechion a chyllid ar aelwydydd mewn tlodi tanwydd sy'n tueddu i ddefnyddio llai o ynni ac y gall yn wir fod angen iddynt gynyddu eu defnydd o ynni er mwyn peidio â byw mewn cartref oer nad yw'n iach.
- 8 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhagor ganddi i'w wneud i ymgysylltu â chynghorau lleol, yng ngoleuni pwysau y maent yn eu hwynebu yn dilyn toriadau cyllid ehangach a newidiadau yn eu dyletswyddau hwy eu hunain sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd. Canfuom hefyd fod bwlch rhwng barn gadarnhaol Llywodraeth Cymru ynglŷn â'i dull o ymgysylltu â mudiadau'r trydydd sector a barn fwy beirniadol y rhai yn y trydydd sector.

- 9 Er bod cyfraddau tlodi tanwydd amcangyfrifedig wedi cwmpo'n sylweddol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd ei nodau i ddileu tlodi tanwydd ac mae effaith ei hymdrechion yn aneglur. O ran y sefyllfa yn 2018:
- Amcangyfrifwyd fod 155,000 o aelwydydd (12% o'r holl aelwydydd) mewn tlodi tanwydd
 - Amcangyfrifwyd fod 130,000 o aelwydydd agored i niwed (11% o'r holl aelwydydd agored i niwed) mewn tlodi tanwydd
 - Amcangyfrifwyd fod 21,000 o aelwydydd mewn tai cymdeithasol (9% o'r holl aelwydydd mewn tai cymdeithasol) mewn tlodi tanwydd
 - Amcangyfrifwyd fod 32,000 o aelwydydd (2% o'r holl aelwydydd) mewn tlodi tanwydd difrifol, yr oedd 19,000 ohonynt yn aelwydydd agored i niwed
- 10 Ymddengys fod camau gweithredu Llywodraeth Cymru, yn enwedig buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni, wedi helpu i ostwng lefelau tlodi tanwydd amcangyfrifedig. Mae'r data ar y rhaglen Cartrefi Cynnes yn dangos gwelliannau arwyddocaol o ran effeithlonrwydd ynni'r cartrefi sydd wedi cael budd o'r rhaglen. Fodd bynnag, nid yw'n dangos a yw'r bobl yn y cartrefi hynny wedi cael eu codi allan o dlodi tanwydd. Er bod Llywodraeth Cymru yn profi rhai meini prawf cymhwysra ehangach, nid yw rhai aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd yn gymwys i gael cymorth o'r cynllun Nyth ac nid ydynt yn byw mewn ardal sydd wedi'i chynnwys yn y cynllun Arbed. Mae effeithiau ymdrechion ehangach Llywodraeth Cymru i gydgyssylltu gweithgarwch yn anos i'w mesur.

Argymhellion

- 11 Rydym ni o'r farn bod rhai materion allweddol sy'n ymwneud â chyfeiriad strategol, cydgysylltu a chyllido rhaglenni y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried wrth iddi ymgynghori ynghylch Cynllun Tlodi Tanwydd newydd a'i gwblhau.

Argymhellion

Cyfeiriad strategol

- A1 Dylai Llywodraeth Cymru fyfyrion ynghylch diben y targed sy'n gysylltiedig â dileu tlodi tanwydd a pha un a ellid ateb y diben hwnnw'n well trwy bennu uchelgais neu nod sy'n fwy cyson â chylch rheolaeth a dylanwad Llywodraeth Cymru.
- A2 Dylai Llywodraeth Cymru roi disgrifiad eglur o'r gwersi a ddysgwyd o'r methiant i gyrraedd y targedau a bennwyd yn 2010 a nodi sut y mae'r gwersi hynny wedi cael eu rhoi ar waith wrth bennu unrhyw uchelgeisiau newydd a'r mecanweithiau ar gyfer eu gwireddu.
- A3 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu casgliad mwy amlweddog o fesurau ar gyfer effaith ei rhaglenni a'i hymdrechion i drechu tlodi tanwydd, yn enwedig:
- Datblygu ei mesurau ar gyfer ei rhaglen Cartrefi Cynnes sy'n seiliedig ar ganfod sut y mae sefyllfa buddiolwyr yn well mewn ffyrdd sydd o bwys iddynt ochr yn ochr â gwelliannau i effeithlonrwydd ynni'r cartref.
 - Gweithio gyda'i bartneriaid i ddatblygu mesurau sy'n ei gwneud yn bosibl deall ar y cyd a yw ymdrechion i gydgysylltu gweithgarwch ar draws ffiniau sefydliadol a sectoraidd yn cael yr effaith a fwriadwyd.

Argymhellion

Cydgysylltu ac integreiddio

- A4 Dylai Llywodraeth Cymru archwilio a disgrifio dadansoddiad ariannol a charbon hirdymor o gostau, manteision a chyfnewidiadau blaenoriaethu aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd fel rhan o'i cynlluniau ehangach ar gyfer datgarboneiddio cartrefi.
- A5 Gan weithio gyda phartneriaid, dylai Llywodraeth Cymru ddisgrifio'n fwy eglur sut y dylai cynlluniau tlodi tanwydd gysylltu'n lleol â gwaith arall i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol a achosodd i unigolion a chymunedau fod dan fygythiad o dlodi tanwydd.
- A6 Dylai Llywodraeth Cymru fyfyrion, yng ngoleuni'r farn a fynegwyd wrthym ni, ynghylch ei dull o gynnwys rhanddeiliaid ac ymgysylltu â hwy, gan gynnwys archwilio pa un a oes angen rhoi unrhyw fecanweithiau ffurfiol ar waith ar gyfer mynd ati'n rheolaidd i gynnwys rhanddeiliaid ac ymgysylltu â hwy.

Argymhellion

Cyllid ar gyfer cynlluniau effeithlonrwydd ynni

- A7 Wrth bennu cyllidebau ar gyfer y rhaglen Cartrefi Cynnes yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu golwg eang, yn unol â'r ffyrdd o weithio dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, o ran sut y gallai cynlluniau tloidi tanwydd: atal costau mewn meysydd gwasanaeth eraill yn y dyfodol; a chyfrannu at nodau polisi ehangach, gan gynnwys y gostyngiad o 80% mewn carbon o dai erbyn 2050.
- A8 Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir a fydd, ac os felly sut y bydd, yn cynorthwyo'r aelwydydd hynny mewn tloidi tanwydd nad ydynt yn gymwys i gael cymorth gan y cynllun Nyth ac nad ydynt yn byw mewn ardal sydd wedi'i chynnwys yn y cynllun Arbed.
- A9 Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir sut y bydd yn cefnogi'r rhai mewn tloidi tanwydd difrifol, gan y gallant fod yn llai tebygol o ymgysylltu â gwasanaethau.
- A10 Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'n llawn beth yw'r rhesymau dros y tanwariant yn y rhaglen Arbed ac os oes problemau sylfaenol gyda'r dull seiliedig ar ardaloedd sy'n golygu bod y sefyllfa'n debygol o barhau, dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i opsiynau ar gyfer newid cydbwysedd y cyllid rhwng Nyth ac Arbed.

Rhan 1

Roedd nod Llywodraeth Cymru
mewn perthynas â dileu tlodi
tanwydd yn uchelgeisiol o ystyried
y cymhlethdodau ac ansicrwydd
cynhenid



Fe bennodd Llywodraeth Cymru dargedau sy'n ymwneud â thlodi tanwydd: ymhlith yr holl grwpiau agored i niwed erbyn 2010; mewn tai cymdeithasol erbyn 2012; ac yn y boblogaeth gyffredinol erbyn 2018

- 1.1 Daeth Deddf Cartrefi Cynnes ac Ynni 2000 i rym yng Nghymru ym mis Ebrill 2002. Roedd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru fabwysiadu Ymrwymiad Tlodi Tanwydd erbyn mis Ebrill 2003, fel y gwnaeth. Roedd ymrwymiad Ebrill 2003 yn nodi targedau statudol ar gyfer dileu tlodi tanwydd hyd y bo'n rhesymol ymarferol. Yn ei Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010, fe ymrwymodd Llywodraeth Cymru o'r newydd i'r tri tharged ar gyfer dileu tlodi tanwydd:
 - Ymhlith aelwydydd agored i niwed erbyn 2010
 - Mewn tai cymdeithasol erbyn 2012
 - Yn gyfan gwbl erbyn 2018
- 1.2 Yn unol â Deddf Cartrefi Cynnes ac Ynni 2000, diffiniad Llywodraeth Cymru o dlodi tanwydd yw 'byw ar incwm is mewn cartref na ellir ei gadw'n gynnes am gost resymol'. Mae wedi mabwysiadu'r ddau fesur canlynol i asesu cyfraddau tlodi tanwydd:
 - Os oes angen i aelwyd wario mwy na 10% o'i hincwm i gadw'n gynnes², mae mewn tlodi tanwydd.
 - Os oes angen i aelwyd wario mwy nag 20% o'i hincwm, mae mewn tlodi tanwydd difrifol.
- 1.3 Mae'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyfrifo faint o aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd yn gymhleth. Mae'n cyfrifo faint y mae'n ei gostio i wresogi cartref yn ddigonol yn seiliedig ar amcangyfrifon arolygon yn hytrach na faint y mae aelwydydd yn ei wario mewn gwirionedd neu pa mor gynnes yw aelwydydd go iawn. Y rheswm dros hyn yw nad yw'r hyn mae aelwydydd yn ei wario mewn gwirionedd yn adlewyrchu'r hyn y byddai angen iddynt

2 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddiffinio cynnes yn ei Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010 fel 21°C yn yr ystafell fyw a 18°C mewn ystafelloedd eraill am 9 awr y dydd (neu 16 awr y dydd ar benwythnosau). Ar gyfer pobl hŷn neu sâl, dylai'r tymheredd fod yn 23°C mewn ystafelloedd byw ac yn 18°C mewn ystafelloedd eraill am y rhan fwyaf o'r dydd. Cafodd y trothwyon gwahanol o ran tymheredd isaf y cartref ar gyfer pobl hŷn neu sâl eu tynnu allan yn ddiweddarach yn dilyn adolygiad systematig o dystiolaeth yn 2014.

ei wario i wresogi'r cartref yn ddigonol. Defnyddir arolwg sampl megis Arolwg Cyflwr Tai Cymru gan nad yw'n bosibl casglu'r wybodaeth hon ar gyfer pob aelwyd yng Nghymru. Mae **Blwch 1** yn egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyfrifo tlodi tanwydd.

Blwch 1: sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyfrifo lefelau tlodi tanwydd


Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) i lunio amcangyfrif o gyfanswm yr aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru. Mae tair prif elfen a ddefnyddir wrth gyfrifo tlodi tanwydd, sef:

- Incwm blyneddol aelwydydd
- Prisiau tanwydd aelwydydd
- Yr ynni y mae angen i'r aelwyd ei ddefnyddio'n flynyddol

Mae Arolwg Cyflwr Tai Cymru yn bwrw golwg ar sampl gynrychiadol o dai ac yn eu dosbarthu yn ôl eu cyflwr. Mae'n defnyddio'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP), sef y system a argymhellir gan Lywodraeth y DU ar gyfer mesur sgôr effeithlonrwydd ynni anheddau preswyl gan ddefnyddio sgôr o 1-120, gydag 1 yn dynodi'r rhai llai ynni-effeithlon a 120 yn dynodi'r rhai mwyaf ynni-effeithlon. Caiff sgoriau SAP eu bandio i roi graddiad A-G. A yw'r graddiad uchaf.

Defnyddir yr wybodaeth hon i gyfrifo faint o ynni y byddai'n ei gymryd i gadw pob cartref yn gynnes, yn seiliedig ar ei faint a'i gyflwr, ac mae hefyd yn ystyried y patrwm gwresogi tebygol yn seiliedig ar ddata am aelwydydd sy'n gweithio ac nad ydynt yn gweithio. Wedyn cyfunir y ffigur tybiannol hwn ar gyfer defnyddio ynni â'r prisiau ynni diweddaraf a data cenedlaethol ar incwm aelwydydd i gyfrifo'r lefelau tlodi tanwydd ar y cyfan.


Effeithlon iawn o ran ynni – costau rhedeg is



Ddim yn effeithlon o ran ynni – costau rhedeg uwch

1.4 Yn flaenorol roedd pob rhan o'r DU yn rhannu'r un diffiniad o dlodi tanwydd â'r un a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru, ond mae Lloegr ac yn fwyaf diweddar yr Alban wedi diwygio'u diffiniadau (Ffigur 1).

Ffigur 1: diffiniadau gwahanol o dlodi tanwydd a ddefnyddir ledled y Deyrnas Unedig



Mae trechu tlodi tanwydd yn gymhleth, gyda'r achosion a'r ymatebion yn rhychwantu ffiniau sefydliadol

- 1.5 Ceir tri phrif ffactor sy'n achosi tlodi tanwydd sy'n rhychwantu ffiniau sefydliadol a sectoraidd (**Blwch 2**). Hefyd, mae effeithiau tlodi tanwydd, megis iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwaeth, cyrhaeddiad addysgol a lles economaidd³ yn drawsbynciol. Dim ond yn rhannol y mae'r pwerau i fynd i'r afael â'r prif achosion wedi'u datganoli. Mae angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda llawer o wahanol sefydliadau yn y DU, yng Nghymru ac yn lleol i gyrraedd ei nodau. Mae **Ffigur 2** yn nodi'r dirwedd sefydliadol gymhleth y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ynddi. Mae **Atodiad 4** yn darparu rhestr o'r termau a ddefnyddir. O ystyried yr achosion sylfaenol cymhleth a'r rheolaeth gyfyngedig, er enghraifft ar brisiau ynni, rydym ni'n meddwl bod y targedau a bennodd Llywodraeth Cymru ar gyfer dileu tlodi tanwydd yn uchelgeisiol tu hwnt.

3 Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru a'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu, **Making a Difference Housing and Health: A Case for Investment**, 2019


Blwch 2: prif achosion tlodi tanwydd

Incwm aelwyd isel: Os oes gan aelwyd incwm isel, gall fod yn anodd dod o hyd i'r arian i dalu am yr ynni y mae ei angen arni i gadw'r cartref yn ddigon cynnes, yn enwedig yn ystod cyfnodau hir o dywydd oer. Ar ei fwyaf eithafol, efallai y bydd rhaid i bobl benderfynu a ydynt yn mynd i flaenoriaethu gwresogi eu cartref dros gostau eraill yr aelwyd megis bwyd a dillad. Mae gan Lywodraeth Cymru rai pwerau dros incwm megis tyfu'r economi a chreu swyddi â chyflogau gwell a chynyddu cyflogadwyedd. Nid oes rheolaeth ganddi ar fudd-daliadau lles, a bennir gan Lywodraeth y DU, er bod ganddi rôl o ran cefnogi gwasanaethau cynghori sy'n helpu i sicrhau bod pobl yn hawlio budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.

Prisiau ynni: Mae prisiau ynni hefyd yn adlewyrchu nifer cyffredinol yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd. I aelwydydd sydd eisoes ag incwm isel ac sy'n brwydro i dalu eu biliau ynni, gall cynnydd droi'r fantol a'u rhoi mewn tlodi tanwydd. Mae gan Gymru gyfran uchel o aelwydydd gwledig. Mae bron i draean o'r aelwydydd gwledig yn defnyddio olew gwresogi fel eu prif danwydd gwresogi sy'n ddrutach ar y cyfan na nwy o'r prif gyflenwad. Hefyd, mae llawer o ddeiliaid tai ar y mesuryddion rhag-dalu drutaf ac nid yw rhai aelwydydd yn newid darparwyr ac maent felly'n talu mwy nag y mae angen iddynt wneud. Dylanwad cyfyngedig sydd gan Lywodraeth Cymru ar brisiau ynni, a reoleiddir gan Ofgem ac y dylanwedir arnynt gan ddigwyddiadau economaidd a gwleidyddol byd-eang. Gall Llywodraeth Cymru gefnogi gwasanaethau sy'n annog pobl i wneud dewisiadau da ynglŷn â'u darparwyr a'u dulliau ynni.

Effeithlonrwydd ynni: Gall effeithlonrwydd tŷ ar y cyfan ddylanwadu ar nifer yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd hefyd. Er enghraifft, cartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n wael, neu sydd â systemau gwresogi aneffeithlon y mae angen iddynt ddefnyddio mwy o ynni i gadw'r tymheredd yn uchel, sy'n cynyddu eu costau tanwydd ar y cyfan. Ar y mater hwn y mae gan Lywodraeth Cymru yr effaith fwyaf uniongyrchol gan ei bod yn gallu ôl-osod mesurau effeithlonrwydd ynni newydd yng nghartrefi pobl a rheoleiddio adeiladau newydd. Gall hefyd weithio gyda chwmnïau cyfleustodau'r sector preifat i sicrhau bod aelwydydd Cymru'n cael budd o'r cynlluniau tlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni y mae'n ofynnol i ddarparwyr ynni eu cynnig.

Ffigur 2: cysylltiadau rhwng rhai o'r sefydliadau a chynlluniau allweddol sy'n rhan o drechu tlodi tanwydd



Sylwer: Mae'r ffigur hwn wedi'i fwriadu i ddangos yr ystod gymhleth o sefydliadau, polisiau a rhaglenni sy'n ymwneud â thlodi tanwydd. Mae'n seiliedig ar ein hymchwil lefel-uchel ac rydym yn ymwybodol ei bod yn debygol bod elfennau eraill nad ydym wedi'u cynnwys. Mae Atodiad 4 yn darparu rhestr o'r termau a ddefnyddir.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- 1.6 Yn ogystal â bod yn gymhleth oherwydd nifer y rhaglenni a'r sefydliadau cydgysylltiedig, ceir rhai tensiynau a heriau cynhenid hefyd, yn ogystal â chyfleoedd, sy'n gysylltiedig ag integreiddio tlodi tanwydd â'r holl feysydd polisi eraill – yn enwedig trechu tlodi a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd trwy leihau carbon (Blwch 3).

Blwch 3: cyfleoedd a heriau sy'n gysylltiedig ag integreiddio tlodi tanwydd â'r newid yn yr hinsawdd a threchu tlodi

Lleihau carbon

Ceir cysylltiadau amlwg rhwng dyheadau Llywodraeth Cymru o ran tlodi tanwydd a'i chynlluniau ehangach ar gyfer y newid yn yr hinsawdd, yn enwedig yr uchelgais i gyflawni gostyngiad o 80% yn allyriadau carbon y stoc dai erbyn 2050. Mae adroddiad annibynnol diweddar⁴ ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi galw am gynnydd mawr mewn buddsoddiadau yn y gwaith o ôl-osod y stoc dai bresennol i wella effeithlonrwydd ynni. Ar hyn o bryd mae'r prif gynlluniau i wella effeithlonrwydd ynni domestig yng Nghymru wedi'u targedu tuag at aelwydydd mewn tlodi tanwydd.

Er ei bod yn amlwg bod rhesymeg dros hyn sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol, nid dyma'r dull mwyaf cost-effeithiol o leihau carbon o anghenraid. Gall fod mwy o gyfle i leihau allyriadau o fwy o gartrefi goludog sy'n gwastraffu ynni. Ceir peth gwrthdaro posibl hefyd, yn enwedig lle gall lleihau effaith tlodi tanwydd olygu bod angen i rai aelwydydd ddefnyddio mwy o ynni trwy gadw eu cartrefi ar dymheredd uwch. Hefyd, byddai argymhelliad yr adroddiad annibynnol y dylid gwella'r holl aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd fel eu bod yn cael sgôr effeithlonrwydd ynni sydd ym Mand A yn golygu bid angen newidiadau sylweddol i'r mesurau a ddarperir a'r swm a gaiff ei wario ar bob aelwyd trwy'r rhaglen

Cartrefi Cynnes. Byddai hyn yn golygu bod angen naill ai cynnydd yn yr arian a fuddsoddir neu ostyngiad yn nifer yr aelwydydd sy'n cael cymorth.

Ceir tensiynau cynhenid rhwng uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni adnewyddadwy a lleihau swm y tanwyddau ffosil hefyd. Mewn termau ariannol yn unig, derbynnir yn eang mai'r ffordd rataf o wresogi cartref yw trwy nwy naturiol. Mae Llywodraeth Cymru, a Llywodraeth y DU, yn wynebu her sylweddol o ran gwneud y cyflenwad ynni'n fwy carbon-effeithlon gan hefyd osgoi codiadau mewn prisiau sy'n gwrthio mwy o bobl i mewn i dlodi tanwydd.

Trechu tlodi

Ceir cysylltiadau amlwg rhwng tlodi tanwydd ac ymdrechion ehangach i leihau tlodi yn ei holl agweddau. I nifer o bobl mewn tlodi tanwydd, dim ond un rhan o set ehangach o faterion y maent yn eu hwynebu yn eu bywydau yw eu costau ynni. Mae'r cyfle felly'n un i ddarparu ymateb cynhwysfawr a chyfannol, y mae mynd i'r afael â biliau tanwydd yn rhan ohono, sy'n helpu pobl i wella'u hamgylchiadau. Yr her yw osgoi sefyllfa lle mae ymyriadau gan y Llywodraeth yn newid amgylchiadau materol eu cartref ond yn gadael y problemau ehangach a achosodd iddynt fod mewn tlodi tanwydd heb eu datrys.

4 Y Grŵp Cyngori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, **Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell Datgarboneiddio cartrefi presennol yng Nghymru**, Gorffennaf 2019

- 1.7 Roedd strategaeth Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2010 yn nodi'r camau gweithredu allweddol y byddai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn eu cymryd (**Blwch 4**). Gan fyfyrto ar natur gymhleth tlodi tanwydd, mae strategaeth 2010 yn amcanu at drechu tlodi tanwydd trwy gyfuniad o raglenni penodol sy'n gadarn o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru, sydd wedi'u bwriadu'n bennaf i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi, a chydgysylltu ymdrechion ehangach sy'n gysylltiedig ag achosion a chanlyniadau tlodi tanwydd. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi sut y mae gwaith i ddileu tlodi tanwydd hefyd yn cyfrannu at amcanion eraill Llywodraeth Cymru, megis creu swyddi a busnesau gwyrdd a chyrraedd targedau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwyrdd.

Blwch 4: nodweddion allweddol camau gweithredu Llywodraeth Cymru i drechu tlodi tanwydd

I gynyddu effeithlonrwydd rhaglenni penodol sy'n targedu tlodi tanwydd a chydgysylltu ymdrechion ehangach i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi tanwydd, roedd strategaeth 2010 yn cynnwys ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- Hybu'r arfer o gydlynu a chydgysylltu cymorth, nid dim ond gan wahanol ddarparwyr sy'n helpu i drechu tlodi tanwydd, ond hefyd trwy ddarganfod ffyrdd o alluogi gwasanaethau a rhaglenni eraill i gefnogi camau gweithredu a fydd o gymorth i leddfu tlodi tanwydd
- Sicrhau bod gwaith i ddatblygu mentrau i drechu tlodi tanwydd yn cael ei gydgysylltu â chamau gweithredu i drechu tlodi ar draws adrannau Llywodraeth Cymru
- Sicrhau bod unrhyw wasanaethau newydd yn cael eu datblygu mewn partneriaeth gyda gwasanaethau presennol a ddarperir gan asiantaethau lleol dibynadwy, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, awdurdodau lleol a mudiadau'r trydydd sector a'u bod yn ategu'r gwasanaethau hynny
- Darparu gwasanaethau cyngor a chymorth sydd o ansawdd da ac yn cael eu cydgysylltu'n dda i sicrhau bod yr holl deiliaid tai yng Nghymru'n gallu cael mynediad at gymorth i ostwng eu boliau tanwydd, i gynyddu eu hincwm i'r eithaf, i wella perfformiad eu cartrefi o ran ynni ac i leihau eu risg o fod mewn tlodi tanwydd
- Darparu rhaglen tlodi tanwydd ar gyfer Cymru gyfan sy'n seiliedig ar y galw a ategir gan raglenni tlodi tanwydd sy'n seiliedig ar ardaloedd
- Sicrhau bod cymorth a chyngor Llywodraeth Cymru yn gynhwysol ac yn ystyried anghenion pobl (er enghraifft, sicrhau bod y cyngor yn cyrraedd safonau o ran derbynioldeb a bod rhaglenni'n cael eu darparu gan fod yn ymwybodol o nodweddion diwylliannol sensitif)
- Sicrhau bod mesurau effeithlonrwydd ynni a ddarperir trwy raglenni sy'n ymateb i'r galw a rhaglenni sy'n seiliedig ar ardaloedd yn cael eu targedu at y deiliaid tai hynny sydd fwyaf mewn angen ac yn byw yn y cartrefi mwyaf ynni-effeithlon
- Adolygu'r meini prawf cymhwystra pan fydd data newydd ar ddifrifoldeb a dosbarthiad tlodi tanwydd yng Nghymru ar gael a gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod rhaglenni'n dal i fod yn effeithiol o ran adnabod a thargedu cymorth i'r deiliaid tai sydd fwyaf mewn angen
- Sicrhau bod rhaglenni Llywodraeth Cymru yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n cynyddu i'r eithaf y cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth y DU, rhaglenni cyflenwyr ynni a ffynonellau cyllid eraill posibl

Rhan 2

Ymddengys fod buddsoddiadau ac ymdrechion Llywodraeth Cymru wedi helpu i ostwng lefelau tlodi tanwydd amcangyfrifedig ond nid yw wedi cyrraedd unrhyw un o'i thargedau



Mae Llywodraeth Cymru wedi gwario £252 miliwn ar ei rhaglen Cartrefi Cynnes i leihau tlodi tanwydd, yn bennaf trwy wella effeithlonrwydd ynni cartrefi, ochr yn ochr â buddsoddiadau ehangach i wella tai cymdeithasol

- 2.1 Mae rhaglen Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru yn cynnwys y cynllun Arbed, a gyflwynwyd yn 2009, a'r cynllun Nyth, a gyflwynwyd yn 2011 (**Ffigur 3**). Mae'r cynlluniau hyn yn cyllido mesurau effeithlonrwydd ynni cartref ar gyfer aelwydydd ar incwm isel sy'n byw yn nhai'r sector preifat.
- 2.2 O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2019, roedd Llywodraeth Cymru wedi gwario £251.8 miliwn, gan gynnwys Cronfeydd Strwythurol yr UE, ar y rhaglen Cartrefi Cynnes. Hefyd, fe ddenodd y cynlluniau hyn gyllid o gynllun ECO Llywodraeth y DU a'i ragflaenwyr (**Blwch 5**). O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2019, a chan gynnwys ffynonellau eraill, roedd cyfanswm o £321.6 miliwn wedi cael ei wario ar y rhaglen Cartrefi Cynnes.
- 2.3 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r cynllun Arbed wedi ei chael yn anodd gwario'i ddyraniad. Rhwng 2016 a 2018, fe wariodd y 'Cynllun Partneriaethau Awdurdodau Lleol' trosiannol lai na'r disgwyl. Yn 2018-19, blwyddyn gyntaf Arbed 3, dim ond £1.2 miliwn yr oedd wedi'i wario, sy'n danwariant sylweddol o £7.8 miliwn yn erbyn cyllideb o £9.0 miliwn. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod hyn yn adlewyrchu oedi cyn rhoi cam 3 ar waith oherwydd her gyfreithiol i'w benderfyniad ynghylch dyfarnu'r contract. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i weithgarwch gynyddu'n sylweddol yn awr ac mae'n dal i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r cynllun ar gyfer y rhaglen Cartrefi Cynnes a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd ym mis Chwefror 2017⁵. Mae **Atodiad 2** ac **Atodiad 3** yn rhoi rhagor o fanylion am wariant ac allbynnau'r cynlluniau Arbed a Nyth fel adroddwyd i ni gan Lywodraeth Cymru.

5 Fe ymrwymodd Llywodraeth Cymru i fuddsoddi £104 miliwn, rhwng 2017 a 2021, yn ei rhaglen Cartrefi Cynnes i wella hyd at 25,000 o gartrefi pellach, gan gynnwys 6,000 o gartrefi trwy Arbed.

Blwch 5: Cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni Llywodraeth y DU

Mae Cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO) Llywodraeth y DU, a gyflwynwyd yn 2013, yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflenwyr ynni mwy ddarparu mesurau effeithlonrwydd ynni ar gyfer aelwydydd domestig yn y DU. Mae'n rhan o bolisïau Llywodraeth y DU ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Fe ddisodlodd ECO y cynllun Targed Lleihau Allyriadau Carbon (CERT) a'r Rhaglen Arbedion Ynni Cymunedol (CESP) a oedd yn ei gwneud yn ofynnol yn flaenorol i gyflenwyr ynni gyllido mesurau effeithlonrwydd ynni.

Ffigur 3: rhaglen Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru – Nyth ac Arbed

Cynllun	Nodweddion allweddol	Gwariant a adroddwyd
Nyth	Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyflwyno Nyth yn 2011, a hwnnw'n disodli'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES). Cynllun sy'n ymateb i'r galw yw Nyth, sy'n cynnig gwelliannau ynni cartref am ddim i aelwydydd aneffeithlon sy'n cael budd-daliadau ar sail prawf modd. Mae'r rhan fwyaf o welliannau'n cynnwys boeler neu system gwresogi canolog newydd ond maent hefyd yn cynnwys inswleiddio'r atig neu inswleiddio wal geudod. Gall rhai gwelliannau gynnwys technolegau newydd megis pypiau gwres ffynhonnell aer ac inswleiddio waliau allanol. Mae hefyd yn rhoi cyngor i'r holl ddeiliaid tai yng Nghymru ynghylch arbed ynni, rheoli arian, tariffau tanwydd a hawl i fudd-daliadau. Ers 2011, mae wedi bod yn cael ei reoli gan Nwy Prydain gyda rhai gwasanaethau'n cael eu darparu gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ⁶ . Dechreuodd y contract pum mlynedd cyfredol ym mis Ebrill 2018, gydag opsiwn ar gyfer estyniad am hyd at ddwy flynedd.	Cyfanswm gwariant £158.7 miliwn, sy'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none">Llywodraeth Cymru: £143.2 miliwnECO a'r cynlluniau a'i rhagflaenodd: £15.5 miliwn

6 Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni sy'n darparu'r gwasanaeth marchnata, ymgysylltu â chwsmeriaid a chynghor dros y ffôn ar gyfer y cynllun. Maent yn gweithredu fel is-gontractwr i Nwy Prydain.

Cynllun	Nodweddion allweddol	Gwariant a adroddwyd
Arbed	Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Arbed yn 2009. Cynllun seiliedig ar ardaloedd yw Arbed. Mae'n cynnig cyllid i awdurdodau lleol osod mesurau effeithlonrwydd ynni, megis cladin ar waliau allanol a systemau gwresogi canolog newydd mewn ardaloedd amddifadus. I gael mynediad at Arbed, rhaid bod deiliaid tai'n byw mewn ardal gymwys. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni dau gam i ddarparu'r cyllid Arbed. Cynhaliwyd Cam 1 rhwng 2009 a 2012, Cynhaliwyd Cam 2 rhwng 2012 a 2015. Rhwng Camau 2 a 3 (2016 – 2018) fe gynhaliodd Llywodraeth Cymru ei chynllun Partneriaethau Awdurdodau Lleol dan y cynllun Arbed, a oedd yn cynnig cyllid grant i awdurdodau lleol wneud gwelliannau i dai. Mae Cam tri yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac mae i fod i ddod i ben yn 2021, gydag opsiwn ar gyfer estyniad am hyd at ddwy flynedd.	<p>Cyfanswm gwariant £162.9 miliwn, sy'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Llywodraeth Cymru: £108.6 miliwn (gan gynnwys £33 miliwn o Gronfeydd Strwythurol yr UE) ECO a'r cynlluniau a'i rhagflaenodd: £54.3 miliwn

2.4 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi buddsoddi cyllid sylweddol mewn gwella effeithlonrwydd ynni tai cymdeithasol fel rhan o waith ar Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru SATC yn 2002 ac mae'n nodi ystod o safonau y mae'n rhaid i'r holl dai cymdeithasol yng Nghymru eu cyrraedd. Mae un o'r safonau'n ei gwneud yn ofynnol i dai gael eu gwresogi'n ddigonol, bod yn effeithlon o ran defnyddio tanwydd a bod wedi'u hinswleiddio'n dda, gan gael sgôr SAP o 65 o leiaf, a fyddai'n rhoi'r tŷ ym Mand D (**Blwch 1**).

2.5 I ddechrau, cyrraedd SATC erbyn 2012 oedd targed Llywodraeth Cymru. Yn 2012, fe wnaethom nodi na fyddai hon yn cael ei chyrraedd am gryn dipyn o amser⁷. Wedyn fe wnaeth Llywodraeth Cymru bennu terfyn amser diwygiedig, sef Rhagfyr 2020, i'r holl landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru gyrraedd SATC. Ers 2004, mae Llywodraeth Cymru wedi gwario £1.6 biliwn ar weithgareddau sy'n rhoi cymorth i gyrraedd SATC⁸, y mae effeithlonrwydd ynni'n un elfen ohoni.

7 Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru**, Ionawr 2012

8 Mae hyn wedi bod yn cael ei gyllido trwy'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr (MRA) a thaliadau gwaddol sydd wedi'u bwriadu i sicrhau bod tai cymdeithasol saff ac yn ddiogel, yn cael eu gwresogi'n ddigonol ac mewn cyflwr da.

2.6 Yn ogystal ag uwchraddio'r stoc dai bresennol yn ôl-weithredol, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio atal tloidi tanwydd yn y dyfodol trwy sicrhau bod tai a gaiff eu hadeiladu o'r newydd ac a gaiff eu hadnewyddu'n sylweddol yn cyrraedd safonau penodol o ran effeithlonrwydd ynni. Caiff y safonau hyn eu nodi mewn rheoliadau adeiladu⁹. Mae cynllun cyflawni carbon isel Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2019¹⁰ yn nodi ei chynllun trosfwaol i leihau allyriadau carbon yn y sector tai domestig, gan gynnwys diwygio'r rheoliadau adeiladu a chyllido dulliau arloesol o ddarparu tai newydd. Roedd y cynllun yn nodi bwriad i ymgynghori ynghylch cynigion ar gyfer rheoliadau newydd yn ystod haf 2019. Fodd bynnag, oherwydd blaenoriaethau sydd mewn cystadleuaeth â'i gilydd bu peth llithriant yn erbyn yr amserlen. Yn awr mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r rheoliadau diwygiedig ar gyfer ymgynghori tuag at ddiwedd 2019.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio gweithio gyda chyrff eraill a chydgyssylltu ei hadrannau ei hun i ddatblygu dull cyfunol o ymdrin ag achosion ehangach tloidi tanwydd

- 2.7 Mae ystod o adrannau Llywodraeth Cymru yn rhan o ddylunio polisiau, cynlluniau a rhaglenni sy'n berthnasol i dloidi tanwydd. Rhai o'r meysydd allweddol yw: gwaith ehangach ar drechu tloidi yn gyffredinol; y rhaglenni ehangach o ran yr amgylchedd a lleihau carbon, gan gynnwys lleihau carbon yn y sector tai, a rhoi cyngor, sy'n cynnwys cynyddu incwm i'r eithaf. Dywedodd staff o wahanol rannau o Lywodraeth Cymru a ddaeth i'n gweithdy fod cydweithio gyda Llywodraeth Cymru wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf.
- 2.8 Mae gan gynghorau yng Nghymru rôl o ran helpu i drechu tloidi tanwydd hefyd. Maent yn darparu neu'n cyllido nifer o'r gwasanaethau lleol sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tloidi yn ogystal â bod â chyfrifoldebau am lesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ehangach eu hardaloedd. Tua'r un amser ag y lansiodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth yn 2010 roedd yr holl gynghorau'n rhan o waith tloidi tanwydd ac wedi datblygu cynlluniau gweithredu cynhesrwydd fforddiadwy. Roedd gwaith cynghorau

⁹ Llywodraeth Cymru, Rheoliadau Adeiladu 2010, **Dogfen gymeradwy L1A: Anheddau newydd**, Gorffennaf 2014

¹⁰ Llywodraeth Cymru, **Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel**, Mawrth 2019

ar dlodi tanwydd yn cael ei ysgogi'n rhannol gan fframweithiau cyfreithiol¹¹ a pholisi¹² nad ydynt yn bodoli mwyach. Yn y dechrau roedd gan gynghorau rôl allweddol yn y cynllun Arbed. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod cynghorau bellach yn brwydro i ddod o hyd i'r capasiti i ymgysylltu ag Arbed, sy'n egluro rhywfaint o'r tanwariant rhwng 2016 a 2018 (paragraff 2.3). Ar gyfer Arbed 3, fe newidiodd Llywodraeth Cymru y contract i leihau'r ddibyniaeth ar fewnbwn cynghorau.

- 2.9 Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym eu bod yn cael trafodaethau rheolaidd gyda chymheiriaid yn y DU a llywodraethau datganoledig eraill. Mae'r trafodaethau hyn yn tueddu i ddigwydd yn chwarterol. Mae ymgysylltu â'r rheoleiddiwr Ofgem yn digwydd ar sail fwy ad hoc. Nid ydym wedi archwilio effeithiolrwydd perthnasoedd Llywodraeth Cymru â'r rheoleiddiwr, y DU a llywodraethau datganoledig eraill.
- 2.10 Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae rhai rhanddeiliaid eu hunain wedi trefnu'n Gynghrair Tlodi Tanwydd i gyflwyno llais a llwyfan cyffredin ar gyfer ymgysylltu â Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgysylltu â mudiadau lleol trwy Fforymau Tlodi Tanwydd Gogledd a De Cymru, sy'n cael eu rhedeg gan National Energy Action Cymru. Cyn 2011, roedd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Dlodi Tanwydd a oedd yn cynnwys ystod o sefydliadau o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Dewisodd Llywodraeth Cymru ddiddymu'r grŵp hwn yn 2011. Y bwriad oedd y byddai'r Gweinidog, yn lle hynny, yn cael cyngor gan y Grŵp Cynghori Allanol ar Drechu Tlodi, a oedd â chynrychiolydd ar drechu tloidi. Cafodd y Grŵp Cynghori Allanol ar Drechu Tlodi ei hun ei ddiddymu yn 2016, gyda'r bwriad y byddai cyfrifoldeb am ymgysylltu'n cael ei ysgwyddo fel rhan o waith ehangach dan strategaeth genedlaethol Cymru Ffyniant i Bawb. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio cynnwys rhanddeiliaid ehangach fel rhan o ddatblygu ei chynllun tloidi tanwydd newydd ac fe gynhaliodd ddigwyddiad bord gron, yr oedd y Gweinidog yn bresennol ynddo, gyda gwahoddiad agored i wneud awgrymiadau ar gyfer blaenoriaethau a newidiadau i'r dull.

11 Yn flaenorol, roedd Deddf Cadwraeth Ynni Cartref 1995 (HECA) yn gosod nifer o gyfrifoldebau o ran effeithlonrwydd ynni domestig ar awdurdodau lleol. Diddymwyd y Ddeddf yng Nghymru yn 2011.

12 Yn flaenorol, fe ymrwymodd Llywodraeth Cymru a phob un o'r 22 o gynghorau i gytundebau polisi a oedd yn cynnwys cyfres o dargedau gwella, gan gynnwys targed canrannol penodedig ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni domestig. Dan y fframwaith cytundeb polisi, fe ymrwymodd awdurdodau lleol i gyrraedd y targedau gwella gwasanaethau yn gyfnewid am Grant Cymell Perfformiad heb ei neilltuo (a oedd yn gyfran fformiwla o £30 miliwn y flwyddyn).

- 2.11 Canfuom fod bwlch rhwng y farn ffafriol y mae Llywodraeth Cymru yn ei choleddu ynglŷn â'i hymgysylltiad â rhanddeiliaid yn y trydydd sector a chanfyddiad rhai yn y trydydd sector. Cynhaliom weithdy gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, lle dwedon nhw wrthym fod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n dda gyda mudiadau allanol. Fe gynhaliom ni weithdy gyda chynrychiolydd mudiadau'r trydydd sector hefyd lle gwnaethant fynegi rhai pryderon ynghylch dull ymgysylltu Llywodraeth Cymru. Fe ddwedon nhw wrthym:
- er ein bod yn croesawu'r cyfle i wneud sylwadau ar y cynllun newydd, mae'r diffyg trefniadau parhaus ffurfiol yn golygu bod ymgysylltu'n cyrraedd ei anterth mewn perthynas â rhai prosiectau a mentrau polisi ac yna'n gwanhau, ac mae llawer o'r baich i gychwyn a chynnal ymgysylltiad yn syrthio ar fudiadau'r trydydd sector;
 - nid yw Llywodraeth Cymru yn eu cynnwys yn ddigon cynnar yn ei phrosesau datblygu polisiau a phrosiectau, gan golli cyfleoedd i ddefnyddio tystiolaeth a gwybodaeth sydd gan fudiadau perthnasol yn y trydydd sector.

Er bod nifer amcangyfrifedig yr aelwydydd mewn tloidi tanwydd wedi gostwng o 332,000 yn 2008 i 155,000 yn 2018, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd unrhyw un o'r targedau ac mae effaith ei hymdrechion ar leihau tloidi tanwydd yn ansicr


Ni chyrhaeddodd Llywodraeth Cymru unrhyw un o'i thargedau i ddileu tloidi tanwydd ond mae lefelau tloidi tanwydd wedi gostwng yn sylweddol yng Nghymru

- 2.12 Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru (Ffigur 4) fod gostyngiad o 14 pwynt canrannol wedi bod ar y cyfan yn nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn tloidi tanwydd rhwng 2008 a 2018. Yn 2018, amcangyfrifwyd fod 332,000 o aelwydydd mewn tloidi tanwydd a oedd yn cyfateb i ychydig dros chwarter yr aelwydydd yng Nghymru (26%). Erbyn 2018, amcangyfrifwyd fod y ffigwr hwn wedi gostwng i 155,000 o aelwydydd, a oedd yn cyfateb i 12% o'r aelwydydd yng Nghymru ar y cyfan. Er gwaethaf gostyngiad o 50% ar y cyfan ni chyrhaeddodd Llywodraeth Cymru ei tharged i ddileu tloidi tanwydd erbyn 2018.
- 2.13 Dros yr un cyfnod (2008 – 2018), cafwyd gostyngiad o 18 pwynt canrannol yn nifer yr aelwydydd agored i niwed¹³ yr amcangyfrifwyd eu bod yn byw mewn tloidi tanwydd hefyd. Yn 2008, amcangyfrifwyd fod 285,000 o aelwydydd agored i niwed mewn tloidi tanwydd a oedd yn cyfateb i 29% o'r holl aelwydydd agored i niwed. Erbyn 2018 amcangyfrifwyd fod y ffigwr hwn wedi gostwng i 130,000 o aelwydydd agored i niwed, neu 11% o'r holl aelwydydd agored i niwed (Ffigur 4). Er gwaethaf y gostyngiadau o fwy na 50% ar y cyfan ni chyrhaeddodd Llywodraeth Cymru ei tharged i ddileu tloidi tanwydd yn yr holl aelwydydd agored i niwed erbyn 2010. Ni chyrhaeddodd y targed i ddileu tloidi tanwydd mewn tai cymdeithasol erbyn 2012 ychwaith, er bod nifer yr aelwydydd tlawd o ran tanwydd mewn tai cymdeithasol wedi gostwng o 59,000 (26%) yn 2008 i 21,000 (9%) yn 2018¹⁴.

13 Y diffiniad o aelwyd agored i niwed yw'r rhai â pherson 60 oed neu drosodd, plentyn neu berson ifanc dan 16 oed a/neu berson sy'n anabl neu â chyflwr cyfyngus hirdymor.

14 Yn 2012 a 2016 fe luniodd Llywodraeth Cymru amcangyfrifon o dlodi tanwydd. Fodd bynnag, data wedi'i fodelu yr oedd yr amcangyfrifon yn ei ddefnyddio'n rhannol am nad oedd y data ar ansawdd tai wedi cael ei ddiweddarau. Ni ellir cymharu ffigyrau 2012 a 2016 ag amcangyfrifon 2018. Nid yw'r un o'r setiau data'n dangos bod Llywodraeth Cymru yn cyrraedd ei thargedau oddeutu'r amser yr oeddent i fod i gael eu cyrraedd.

Ffigur 4: y ganran o'r aelwydydd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd yn 2008 a 2018



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

2.14 Bu gostyngiad hefyd yn nifer yr aelwydydd yr amcangyfrifir eu bod mewn tlodi tanwydd difrifol. O ran y sefyllfa yn 2018, amcangyfrifir bod 2% o'r aelwydydd (32,000) yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol. Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r 5% o aelwydydd (60,000) yn 2008. Dengys y data mai'r amcangyfrif oedd bod 2% o'r aelwydydd agored i niwed (19,000) yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol yn 2018. Mae hyn yn cymharu â 5% o aelwydydd agored i niwed (52,000) yr amcangyfrifwyd eu bod yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol yn 2008. Dengys ffigurau 2018 fod 59% o'r aelwydydd a oedd mewn tlodi danwydd difrifol yn aelwydydd sy'n agored i niwed¹⁵. Mae hyn yn cymharu â sefyllfa tlodi tanwydd ar y cyfan lle mae 84% o'r aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn aelwydydd sy'n agored i niwed.

15 Mae meintiau'r samplau ar gyfer tlodi tanwydd difrifol mewn aelwydydd agored i niwed yn fach ac nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr amcangyfrifon hyn mor gadarn â'r rhai ar gyfer tlodi tanwydd.

Er bod cynlluniau Llywodraeth Cymru wedi gwella effeithlonrwydd ynni aelwydydd domestig, mae eu heffaith ar leihau tlodi tanwydd ar y cyfan yn aneglur

2.15 Mae'n anodd bod yn sicr ynghylch union effaith y ddau gynllun – Arbed a Nyth – sy'n rhan o'r rhaglen Cartrefi Cynnes. Cwblhawyd gwerthusiadau o'r ddau gynllun. Heb os nac oni bai, mae'r ddau wedi arwain at welliannau i effeithlonrwydd ynni'r tai. Mae **Atodiadau 2 a 3** yn nodi'r cynnydd mewn sgoriau SAP ar gyfer y ddau gynllun, er nad yw Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu data SAP sy'n dangos effeithiau ei buddsoddiad o £24 miliwn yng ngham Partneriaeth Awdurdod Lleol Arbed rhwng 2015 a 2018. Mewn theori, dylai'r gwelliannau sylweddol mewn effeithlonrwydd ynni yr adroddwyd arnynt wneud yr aelwydydd hynny'n llai tebygol o fod mewn tlodi tanwydd. Fodd bynnag, nid yw'r naill gynllun na'r llall yn gwirio'n rheolaidd a oedd pobl mewn tlodi tanwydd cyn ynteu ar ôl yr ymyriad. Mae'r cynlluniau Nyth ac Arbed yn cofnodi ac yn adrodd yn gyhoeddus ar welliannau o ran effeithlonrwydd ynni a wneir i bob eiddo, ond mae nifer o ffactorau sy'n ei gwneud yn anodd mesur eu heffaith ar dlodi tanwydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- mae'n anodd casglu gwybodaeth gywir am incwm aelwydydd a defnydd hanesyddol o ynni ar gyfer yr holl aelwydydd
- gall amgylchiadau aelwydydd gan gynnwys incwm aelwydydd newid yn aml
- gall prisiau ynni newid yn aml
- gall preswylwyr ddefnyddio gwelliannau i gadw'u cartrefi'n gynhesach am yr un gost, yn hytrach na gostwng eu gwariant ar danwydd
- gall monitro eang dros nifer o flynyddoedd fod yn gostus ac yn ymwithiol i'r aelwydydd dan sylw.

- 2.16 Mae Nyth ac Arbed ill dau'n wynebu heriau wrth dargedu aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd. Canfu gwerthusiad gan Lywodraeth Cymru¹⁶ o Nyth yn 2015 nad oedd tua 22% o'r buddiolwyr a arolygwyd ganddi mewn tloidi tanwydd mewn gwirionedd. Ar y llaw arall, canfu 'er bod y cynllun wedi cyrraedd rhai aelwydydd mewn angen, mae risg nad yw eraill sydd mewn angen yn yr un modd wedi gallu cael mynediad at y cymorth y mae'i angen arnynt am eu bod wedi methu â bodloni'r meini prawf cymhwysra'. Yn yr un modd, ni fydd llawer o aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd mewn ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun Arbed. Ers 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn profi meini prawf cymhwysra ehangedig i gynnwys unigolion â chyflyrau anadlol a chylchredol. Roedd nifer y rhai a hawliodd y cymorth yn weddol gyfyngedig, gyda 77 o atgyfeiriadau yn 2018-19 ond dim ond dau o'r rhain oedd yn gymwys. Yn fwy diweddar, mae wedi newid y mecanwaith atgyfeirio ar gyfer y meini prawf cymhwysra ehangedig ac wedi gostwng y trothwy incwm is sydd wedi cynyddu'r gyfradd atgyfeirio yn ôl yr hyn a ddywedodd Llywodraeth Cymru wrthym.
- 2.17 Fe wnaethom fwrw golwg ar wariant ar Arbed a Nyth ar lefel awdurdodau lleol a pha un a oedd cydberthynas rhwng hyn a lefelau tloidi tanwydd. Ni wnaeth ein dadansoddiad esgor ar gasgliadau pendant. Mae'r data'n awgrymu nad oedd cydberthynas gref rhwng cyfraddau hawlio Nyth ac Arbed ar lefel awdurdodau lleol a data ar lefelau tloidi tanwydd. Fodd bynnag, gallai'r darlun hwnnw gael ei egluro gan ffactorau nad oes data manwl ar eu cyfer. Er enghraifft, efallai fod aelwydydd mewn rhai ardaloedd yn cael cymorth cyn dechrau Arbed a Nyth, gan gynnwys trwy ymyriadau a gyllidir gan gwmnïau cyfleustodau dan ECO a'r cynlluniau a'i rhagflaenodd.
- 2.18 Hyd at ddiwedd mis Mawrth 2019 mae'r cynllun Nyth wedi rhoi cyngor i gyfanswm o 129,506 o aelwydydd. Fe wnaeth y gwerthusiad o Nyth yn 2015 arolygu defnyddwyr a chanfod bod dros hanner (59%) y rhai a arolygwyd a oedd wedi cael cyngor trwy'r cynllun Nyth wedi dweud eu bod wedi gweithredu arno, gan gynnwys manteisio ar fesurau effeithlonrwydd ynni a gyllidir trwy'r rhaglen Cartrefi Cynnes neu gan gwmnïau cyfleustodau. Fe wnaeth y gwerthusiad hefyd adnabod nifer o newidiadau mewn ymddygiad y soniodd cwsmeriaid amdanynt o ganlyniad i gyngor trwy'r cynllun Nyth. Y newidiadau mewn ymddygiad y soniwyd amdanynt fwyaf oedd: gostwng tymheredd y system gwresogi a lleihau'r amser yr oedd y system gwresogi ymlaen a diffodd dyfeisiau neu oleuadau pan nad oeddent yn eu defnyddio.

16 Llywodraeth Cymru (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth), **Gwerthusiad o'r cynllun effeithlonrwydd ynni Nyth**, Mawrth 2015

2.19 Mae effaith y buddsoddiad i wella tai cymdeithasol ar lefelau tlodi tanwydd yn aneglur hefyd. Dengys y data diweddaraf fod 90% o'r tai cymdeithasol yng Nghymru'n cydymffurfio â SATC ar ddiwedd mis Mawrth 2018¹⁷. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys 'methiannau derbyniol'¹⁸. Os yw'r ffigyrau hyn yn cael eu hepgor mae'r ffigwr yn syrthio i 63%. Ar ddiwedd mis Mawrth 2018, roedd 97% o dai'n cydymffurfio â'r elfen effeithlonrwydd ynni cyffredinol o'r safon, gan gynnwys methiannau derbyniol. 89% oedd y ffigwr heb gynnwys methiannau derbyniol. Ar y cyfan yn ôl Llywodraeth Cymru, o ganlyniad i SATC, mae'r sgoriau ynni cyfartalog mewn tai cymdeithasol wedi codi o sgôr SAP o 58 yn 2008 i sgôr o 68 yn 2017-18¹⁹. Fel gyda'r rhaglen Cartrefi Cynnes, dylai gwelliannau i effeithlonrwydd ynni cartref fod wedi gwneud yr aelwydydd hynny'n llai tebygol o fod mewn tlodi tanwydd. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi mesur i weld a oedd yr aelwydydd hynny mewn tlodi tanwydd cyn yr ymyriad a pha un a oeddent yn dal i fod mewn tlodi tanwydd ar ei ôl.

Mae effeithiau ymdrechion ehangach Llywodraeth Cymru i gydgysylltu gweithgarwch yn anos i'w mesur

2.20 Mae'r gwaith ehangach i gydgysylltu polisiâu, cynlluniau a gweithgareddau'n anos, ond nid yn amhosibl, i'w fesur o ran effeithiau. Mae'n amlwg bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio cydgysylltu tlodi tanwydd ar lefel cynlluniau a strategaethau dros y degawd diwethaf. Cyfeirir at dlodi tanwydd mewn cynlluniau allweddol, gan gynnwys Ffyniant i Bawb, Strategaeth Tlodi Plant 2015, Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru 2016, a Chynllun Cyflawni Carbon Isel Llywodraeth Cymru 2019. Fodd bynnag, disgrifiadau o'r rhaglen Cartrefi Cynnes yw'r rhain yn tueddu i fod, yn hytrach na nodi sut y bydd gwahanol gynlluniau a gweithgarwch yn cael eu cydgysylltu'n ymarferol. Hefyd, nid yw'r croesyfeiriadau amrywiol yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r tensiynau cynhenid rhwng tlodi tanwydd ac amcanion polisi eraill (**Blwch 3**).

17 Llywodraeth Cymru, **Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) ar 31 Mawrth 2018 – Adolygydd**, Mehefin 2019

18 Cyflwynwyd cysyniad methiannau derbyniol gan Lywodraeth Cymru yn 2008 ac mae'n ymwneud ag amgylchiadau naill ai lle mae'n amhosibl neu lle nad yw'n gost-effeithiol i eiddo gael ei wella i SATC neu lle mae tenant yn dewis peidio â chael gwneud y gwaith.

19 Llywodraeth Cymru, **Arolwg Amodau Tai Cymru 2017-18: Adroddiad Pennawd**, Rhagfyr 2018

2.21 Un dangosydd ar gyfer effaith ymdrechion ehangach i ymgysylltu â darparwyr cyfleustodau yw maint y gweithgarwch gan y darparwyr ynni yng Nghymru. Roedd cyfradd y mesurau ECO am bob 1,000 o aelwydydd rhwng mis Ionawr 2013 a mis Mawrth 2019 yng Nghymru'n 76.5 o'i gymharu â 70.2 yn Lloegr ac 107.8 yn yr Alban. Fodd bynnag mae'r cyfraddau cyffredinol hyn yn cynrychioli cyfanswm yr ymyriadau nid cyfanswm gwerth ariannol mesurau ECO. Hefyd, gall lefel yr aelwydydd cymwys ar gyfer mesurau ECO amrywio ledled y DU.

Atodiadau



Atodiad 1: Dulliau archwilio

Wrth wneud y gwaith hwn, fe ddefnyddiom ni'r dulliau canlynol:

1. Adolygu dogfennau: fe adolygom ni ystod o ddogfennau gan gynnwys:
 - a Cynlluniau a strategaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010, cynlluniau cysylltiedig megis y Cynllun Tystiolaeth Tlodi Tanwydd, y Cynllun Effeithlonrwydd ac Arbedion Ynni Cenedlaethol, y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol; Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell: Datgarboneiddio cartrefi presennol yng Nghymru a Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel.
 - b Dogfennau mewnol Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â chaffael a rheoli ei rhaglen Cartrefi Cynnes a datblygu ei chynllun tldi tanwydd newydd. Er enghraifft, adolygiad archwilio mewnol o Nyth; adolygiad sicrhau ansawdd diweddar o'r rhaglen Cartrefi Cynnes a chofnodion a phapurau o'r bwrdd mewnol sy'n rheoli'r rhaglen Cartrefi Cynnes.
 - c Ymchwil a gomisiynwyd a chyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni domestig. Er enghraifft, gwerthusiad Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru o Nyth a'i gwerthusiadau o Arbed a data ystadegol o'r Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008 ac Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18.
 - ch Dogfennau ymchwil a pholisi gan sefydliadau allanol, gan gynnwys adroddiadau Monitor Tlodi Tanwydd National Energy Action.
2. Gweithdai: Fe gynhaliom ni ddau weithdy i gasglu barn, yn enwedig ar gynnydd hyd yma a chydweithio:
 - a Gweithdy gyda swyddogion o wahanol rannau o Lywodraeth Cymru sydd â buddiant mewn tldi tanwydd, gan gynnwys tai, cyngor ar ddyledion a pholisi ynni.
 - b Gweithdy gyda rhanddeiliaid, a drefnwyd trwy'r Cynghrair Tlodi Tanwydd²⁰.

²⁰ Arweinir y Cynghrair Tlodi Tanwydd gan National Energy Action Cymru a Chyngor Ar Bopeth ac fe'i cefnogir gan grŵp llywio, gan gynnwys Age Cymru, Gofal a Thrwsio Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru, Plant yng Nghymru, Cyfeillion y Ddaear Cymru, Oxfam Cymru, Shelter Cymru, Anabledd Cymru, Canolfan Cyngori ar Ynni Cynnal Cymru yng Ngogledd Cymru a Cymru Gynnes.

3. Cyfweiliadau: Fe gynhaliom ni nifer fach o gyfweiliadau lled-strwythuredig gyda'r swyddogion yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am dlodi tanwydd.
4. Dadansoddi data: Fe ddadansoddom ni nifer o wahanol fathau o ddata:
 - a Gwariant gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill ar y rhaglen Cartrefi Cynnes a dosbarthiad gwariant ar draws awdurdodau lleol Cymru.
 - b Gwariant gan Lywodraeth Cymru i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, y mae gwella effeithlonrwydd ynni domestig yn elfen ohoni.
 - c Cyfradd y mesurau ECO am bob 1,000 o aelwydydd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.
 - ch Data eilaidd ar gyfraddau tlodi tanwydd dros amser.
 - d Allbynnau'r cynlluniau, megis nifer y boeleri a osodwyd, cyngor a roddwyd ac effaith cynlluniau ar effeithlonrwydd ynni cartref.

Atodiad 2: Gweithgarwch y cynllun Nyth 2011-2019

Hyd at ddiwedd mis Mawrth 2019 roedd y cynllun Nyth wedi rhoi cyngor i gyfanswm o 129,506 o aelwydydd ac wedi darparu gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar gyfer 33,733 o dai ers dechrau'r cynllun. Mae'r cynllun wedi dwyn manteision eraill megis creu swyddi lleol trwy ddarparu cyfleoedd i gwmnïau peirianeg gwres ac inswleiddio bach a chanolig gael eu cyflogi ar y cynllun, yn ogystal â darparu hyfforddiant sgiliau trwy raglenni prentisiaeth. Ar gyfer 2017-18 a 2018-19, mae'r cynllun yn nodi ei fod wedi creu 12 ac 11 o swyddi a 32 ac 20 o brentisiaethau yn y drefn honno. Nid oes data cymaradwy ar gael ar gyfer blynyddoedd cyn hynny.

Ffigur A1: gwariant a gwelliannau ar y cyfan trwy Nyth, 2011-2019¹

Blwyddyn	Nifer yr aelwydydd a gafodd welliannau effeithlonrwydd ynni	Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru (£miliynau)	Cyfanswm gwariant ECO (£ miliynau) ²	Cyfanswm gwariant ar y cyfan (£ miliynau)
2011-12	3,647	14.8	0.2	15.0
2012-13	4,900	19.8	Dim ffigyrau	19.8
2013-14	4,981	12.8	3.9	16.7
2014-15	4,266	15.4	1.3	16.7
2015-16	6,125	24.0	4.4	28.4
2016-17	5,540	21.6	3.9	25.5
2017-18	4,457	19.1	1.6	20.7
2018-19	3,817	15.7	0.2	15.9
Cyfanswm	37,733	143.2	15.5	158.7

Nodiadau:

1. Nid ydym wedi archwilio'r ffigyrau yn y tabl hwn a gyflenwyd gan Lywodraeth Cymru o safbwynt cywirdeb. Nid yw rhai yn gyson â'r rhai a nodir yn adroddiadau blynyddol Nyth. Yn ystod ein gwaith archwilio, mae Llywodraeth Cymru wedi cwestiynu ei ffigurau ei hun ac yn cael trafodaeth bellach gyda'r contractwr, British Gas. Byddwn yn ystyried yr adroddiadau ariannol fel rhan o unrhyw waith yn y dyfodol sy'n edrych ar Nest ac Arbed.
2. Mae hyn yn cynnwys y cynlluniau a ragflaenodd ECO, sef CERT a CESP.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Ffigur A2: mathau o fesurau effeithlonrwydd ynni a osodwyd trwy Nyth, 2011-2019

Mathau o fesurau a osodwyd	2011-12 (%)	2012-13 (%)	2013-14 (%)	2014-15 (%)	2015-16 (%)	2016-17 (%)	2017-18 (%)	2018-19 (%)
Gosod system gwresogi canolog	82.5	84	85	87.4	97	95.3	92	93.8
Inswleiddio safonol	15.2	14	14	11.1	2.9	4.6	8	6.2
Inswleiddio uwch	1.7	1	1	1.5	0.1	0.1		
Solar	0.5	1						

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Ffigur A3: gwelliannau cyfartalog ar y cyfan i effeithlonrwydd ynni yr adroddwyd arnynt trwy'r cynllun Nyth, 2011-2019

Blwyddyn	Cynnydd cyfartalog mewn pwyntiau SAP am bob aelwyd
2011-12	48
2012-13	40
2013-14	37
2014-15	38
2015-16	33
2016-17	35
2017-18	37
2018-19	41

Nodiadau:

1. Y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) yw'r system a argymhellir gan Lywodraeth y DU ar gyfer mesur sgôr effeithlonrwydd ynni anheddau preswyl gan ddefnyddio sgôr o 1-120, gydag 1 yn dynodi'r rhai llai ynni-effeithlon a 120 yn dynodi'r rhai mwyaf ynni-effeithlon. Caiff sgoriau SAP eu bandio i roi graddiad A-G. A yw'r graddiad uchaf.
2. Nid yw'r ffigyrau ar welliannau i effeithlonrwydd ynni yr adroddwyd wrth Lywodraeth Cymru arnynt gan Nwy Prydain wedi cael eu gwirio'n annibynnol.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Atodiad 3: Gweithgarwch y cynllun Arbed rhwng 2010-2019

Ffigur A4: niferoedd y tai a gafodd eu gwella a chyfanswm a chyfartaledd gwariant am bob eiddo trwy Arbed, rhwng 2010 a 2019¹

Cyfnod	Nifer yr aelwydydd a gafodd fesurau effeithlonrwydd ynni	Cyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru (£ miliynau)	Cyfanswm gwariant ECO (£ miliynau)	Cyfanswm gwariant yr UE (£ miliynau)	Gwariant ar y cyfan (£ miliynau)
Arbed 1: 2010 – 2012	7,585	36.2	31.8	Dim cyllid yr UE	68.0
Arbed 2: 2012 – 2015	6,535	12.2	20.2	33.0	65.4
Partneriaeth Awdurdod Lleol Arbed: 2015 – 2018	3,061	26.0	2.3	Dim cyllid yr UE	28.3 ²
Arbed 3: 2018 - Mawrth 2019 ³	145	1.2			1.2
Cyfanswm	17,326	75.6	54.3	33	162.9

Nodiadau:

1. Nid ydym wedi archwilio'r ffigurau yn y tabl hwn o safbwynt cywirdeb. Yn ystod ein gwaith, mae'r data Arbed yr ydym wedi adrodd arno wedi'i gadarnhau i ni gan Lywodraeth Cymru. Mewn rhai achosion, mae'r ffigurau hyn yn wahanol i'r rhai a adroddwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru.
2. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys y ffigurau yn 2017-18 ar gyfer cyllid ECO ychwanegol y cafwyd gafael arno fel rhan o'r rhaglen. Pan fydd y rhain ar gael bydd y ffigur cyfanswm yn cynyddu.
3. Mae'r ffigurau hyn ar gyfer blwyddyn gyntaf rhaglen dair blynedd.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Ffigur A5: sgoriau SAP cynt ac wedyn yr adroddwyd arnynt ar gyfer camau 1 a 2 y cynllun Arbed

Rhaglen	Sgôr SAP cynt	Sgôr SAP wedyn ²	Cynnydd cyfartalog mewn pwyntiau SAP
Arbed 1	60	69	9
Arbed 2	51	61	10
Cam Partneriaeth Awdurdodau Lleol Arbed: 2015 – 2018 ¹	-	-	-
Arbed 3 ³	51	64	13

Nodiadau:

1. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu data ar ein cyfer ar sgoriau SAP cynt ac wedyn y cam Partneriaeth Awdurdodau Lleol (2015 – 2018).
2. Nid yw'r ffigyrau ar welliannau i effeithlonrwydd ynni yr adroddwyd arnynt gan reolwyr y cynllun wrth y gwerthuswyr wedi cael eu gwirio'n annibynnol.
3. Mae'r ffigyrau ar gyfer Arbed 3 yn adlewyrchu'r data a oedd ar gael ar gyfer y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2018 a mis Gorffennaf 2019. Ar gyfer y cyfnod hwnnw, fe ddarparodd rheolwr y cynllun (Arbed am Byth) sgoriau SAP cynt ac wedyn 879 o dai ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Ffynonellau: Prifysgol Caerdydd, **Cynllun Arbed 1 Gwerthusiad o'r Rhaglen Cymru Gynnes**, Awst 2012; Ricardo Energy and Environment, **Prosiect yr UE Arbed Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru, Adroddiad Terfynol**, Awst 2017

Atodiad 4: Rhestr o'r termau a ddefnyddir yn Ffigur 2

Ffigur A6: rhestr o'r termau a ddefnyddir yn Ffigur 2

Term	Disgrifiad
Adeiladwyr tai	Contractwyr adeiladu sy'n arbenigo mewn codi tai.
Arbed Llywodraeth Cymru/UE	Cynllun gwella effeithlonrwydd ynni seiliedig ar ardaloedd. Fe'i hariennir trwy Lywodraeth Cymru (gan gynnwys Cronfeydd Strwythurol yr UE) ac ECO.
Budd-daliadau Lles	Cymorth a roddir gan Lywodraeth y DU i bobl sy'n bodloni meini prawf penodol, megis bod yn ddi-waith ar incwm isel neu fod ag afiechyd neu anabledd.
Cronfeydd Ymddiriedolaeth Cyflenwyr Ynni	Maent yn rhoi cymorth ariannol i bobl agored i niwed sy'n profi caledi ac sy'n brwydro i dalu eu biliau.
Cwmnïau cyfleustodau	Cwmnïau sy'n cyflenwi cyfleustodau, megis nwy a thrydan.
Cynghrair Tlodi Tanwydd	Yn cael ei arwain gan National Energy Action Cymru a Chyngor Ar Bopeth, gyda chymorth grŵp llywio sy'n cynnwys ystod o sefydliadau sy'n gweithio i symud yr agenda tlodi tanwydd yn ei blaen yng Nghymru.
Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy	Cynllun sy'n rhoi cymorth ariannol i berchnogion systemau gwresogi adnewyddadwy.
Cynhyrchu ynni ar raddfa fawr	Mae'n cynnwys technoleg a seilwaith presennol a ddefnyddir i ddarparu ynni yn y DU. Mae cyfleusterau presennol yn defnyddio technolegau seiliedig ar danwyddau ffosil, megis glo a nwy, yn bennaf.

Term	Disgrifiad
Cynllun Disgownt Cartrefi Cynnes	Mae'n rhoi cymorth ychwanegol i bobl sy'n brwydro i dalu eu biliau ynni.
Deiliaid tai preifat	Perchnogion tai.
DLICD	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
Everwarm	Darparwr gosod mesurau arbed ynni dan y cynllun Arbed presennol.
Fforymau Tlodi Tanwydd Rhanbarthol	Caiff y rhain eu cynnal gan National Energy Action Cymru i arddangos arfer arloesol, archwilio polisïau a hybu deialog a thrafodaeth ynghylch tlodi tanwydd.
Ffyniant i bawb	Strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru sy'n nodi ei hymrwymadau allweddol, yn eu gosod mewn cyd-destun hirdymor ac yn nodi'r berthynas rhwng y rhain a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru i osod sylfeini tuag at gyflawni ffyniant i bawb.
GIG (Presgripsiynu cymdeithasol gan feddygon teulu)	Trefn lle mae cleifion yn cael eu hatgyfeirio gan weithwyr iechyd proffesiynol at gymorth yn y gymuned, er mwyn gwella'u hiechyd a'u lles.
Gofal a Thrwsio	Sefydliad elusennol annibynnol sy'n amcanu at wella tai pobl hŷn.
Grantiau/atgyweiriadau tai	Grantiau a roddir gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

Term	Disgrifiad
Grwpiau ymgyrchu	Mae nifer o sefydliadau sy'n ymgyrchu ledled y DU ac o fewn gwledydd a rhanbarthau unigol i newid deddfwriaeth, polisi ac arfer lle mae tlodi tanwydd a materion cysylltiedig eraill yn y cwestiwn, gan gynnwys agweddau amgylcheddol a chymdeithasol ar dlodi tanwydd.
Gwefannau newid cyflenwr y DU	Gwefannau cymharu prisiau ar-lein sy'n galluogi cwsmeriaid i gymharu tariffiau ynni a bargeinion cyflenwyr.
Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig	Sefydliadau annibynnol, dielw sy'n darparu cartrefi ar gyfer pobl y mae angen tai arnynt.
Landlordiaid preifat	Perchnogion tai sy'n dewis gosod eu tŷ ar rent.
Nyth Llywodraeth Cymru	Cynllun gwella effeithlonrwydd ynni sy'n ymateb i'r galw. Fe'i cyllidir yn bennaf trwy fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru ond mae hefyd yn ysgogi peth cyllid ECO.
Ofgem	Corff rheoleiddio sy'n goruchwyllo gweithrediad y diwydiant nwy a thrydan.
Ombwdsmon	Sefydliad sy'n ymdrin yn annibynnol ag anghydfodau rhwng defnyddwyr a chyflenwyr ynni a nwy.
Polisi Llywodraeth Cymru ar y targed o ran y newid yn yr hinsawdd	Mae gan Lywodraeth Cymru darged i gyflawni gostyngiad o 95% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050.

Term	Disgrifiad
Rheoliadau adeiladau newydd	Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio atal tloidi tanwydd yn y dyfodol trwy sicrhau bod tai newydd a godir a thai a gaiff eu hadnewyddu'n sylweddol yn cyrraedd safonau penodol o ran effeithlonrwydd ynni. Nodir y safonau hyn mewn rheoliadau adeiladu.
Rheoliadau effeithlonrwydd ynni landlordiaid preifat	Rheoliadau sy'n nodi'r safon effeithlonrwydd ynni isaf sy'n ofynnol ar gyfer tai rhent preifat.
Rhwymedigaeth Cwmni Ynni	Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyflenwyr ynni mwy ddarparu mesurau effeithlonrwydd ynni ar gyfer aelwydydd domestig ledled y DU.
Safon Ansawdd Tai Cymru	Datblygwyd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu safon darged gyffredin ar gyfer cyflwr yr holl dai cymdeithasol yng Nghymru.
Siarter Tloidi Tanwydd	Siarter sy'n galw am ddileu tloidi tanwydd yng Nghymru.
Strategaeth Cynhwysiant Ariannol (2016)	Strategaeth Llywodraeth Cymru i wella dealltwriaeth am gredyd fforddiadwy a gwasanaethau a gwybodaeth ariannol.
Strategaeth Tloidi Tanwydd 2010	Strategaeth gyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tloidi tanwydd a'i achosion.
Taliad Tanwydd Gaeaf	Taliad di-dreth unigol gan Lywodraeth y DU yn ystod y gaeaf i helpu gyda chostau gwresogi ar gyfer pobl sy'n gymwys ar sail oedran a phreswyllo.
Taliad Tywydd Oer	Taliad i bobl sy'n hawlio rhai budd-daliadau os cofnodwyd fod, neu os rhagwelwyd y bydd, y tymheredd cyfartalog yn sero gradd neu'n is am 7 diwrnod olynol. Fe'i dyfernir ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth.

Term	Disgrifiad
Tariffau Cyflenwi Trydan	Taliad i aelwydydd neu fusnesau sy'n cynhyrchu eu trydan eu hunain trwy ddefnyddio dulliau nad ydynt yn cyfrannu at ddisbyddu adnoddau naturiol, yn gymesur â swm y trydan a gynhyrchir.
Twf Gwyrdd Cymru	Mae'n cynnig cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd ynni yng Nghymru. Mae'r cyllid, sydd ar gael i sefydliadau'r sector cyhoeddus, yn ad-daladwy ac yn ddi-log.
Twf Gwyrdd/Un Blaned	Gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y byd lle mae pobl yn mwynhau bywydau hapus, iach o fewn eu cyfran deg o adnoddau'r ddaear, gan adael lle ar gyfer byd natur ac ardaloedd gwylt.
Y Fargen Werdd	Benthyciadau a gyllidir yn breifat i berchnogion tai, landlordiaid a thenantiaid i'w hannog i wneud gwelliannau sy'n arbed ynni. Caiff y benthyciad ei ad-dalu trwy'r bil ynni.

Term	Disgrifiad
Y Gronfa Cymorth Dewisol	Mae'n darparu grantiau brys i bobl nad oes angen eu had-dalu. Yng Nghymru fe'i rheolir gan Lywodraeth Cymru.
Y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol	Mae'n cynghori sut i helpu pobl i gael cyngor o ansawdd da ar les cymdeithasol.
Ynni adnewyddadwy	Ynni a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy.
Ynni adnewyddadwy cymunedol	Grŵp o bobl sy'n cynhyrchu, yn perchenogi ac yn rheoli eu hynni adnewyddadwy eu hunain.
Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd	Adran anweinidogol annibynnol yn Llywodraeth y DU. Mae'n gweithio i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael bargaen dda wrth brynu cynhyrchion a gwasanaethau, a bod busnesau'n gweithredu o fewn y gyfraith.
Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni	Sefydliad annibynnol, dielw a gyllidir gan y Llywodraeth a'r sector preifat. Mae'n hybu effeithlonrwydd ynni, cadwraeth ynni a defnydd cynaliadwy o ynni.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru